



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Hydref 23 2018 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday October 23 2018 at 7pm.

Presennol/Present: Gordon Warren (Cadeirydd/Chair), Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Meg Roberts, Kevin Ellis, John Byast, Liz Wood, Carys Cranston, Julie Ann Hughes, Richard Jones.

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk) Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation),
Aelodau o'r cyhoedd a'r wasg / Members of the community and media.

Ymddiheuriadau/Apologies: Mike Roberts, Gina Jones, Tony Fitzmaurice, Cyng/Cllr Aled Jones

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Myrddin Owens – gefeillio / twinning
Gareth Winston Roberts – Craig y Don

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
The minutes were confirmed a true record. Proposed Myrddin Owens seconded Meg Roberts.

4 Materion yn codi/Matters Arising

4.1 Maes Llwyn

Nododd Cyng Richard Jones bod CSYM wedi cytuno gwneud y gwaith, ond na fydd yn cael i gwblhau nes y gwanwyn. Fe ofynnwyd os oedd unrhyw ddiweddariad ynglyn a'r brydles gan fod angen cadarnhau unrhyw delerau a dogfennau perthnasol cyn eu harwyddo. Nid oes angen arwyddo nes bod y gwaith wedi ei gwblhau. Cadarnhaodd Cyng Richard Jones y byddai yn gwirio gyda'r swyddogion perthnasol ac anfon gwybodaeth i'r Swyddfa cyn gynted a phosib.

Cllr Richard Jones noted that IACC had agreed to complete the work, but it would not be completed until next spring. It was asked whether there was any update on the lease as any terms and relevant documents need to be agreed before anything is signed. It is not necessary to sign the lease until the work by IACC has been completed. Cllr Richard Jones confirmed that he would check with the relevant officers and forward information to the office as soon as possible.

4.2 Arwyddion Stryd Bethesda Signs

Cafwyd gadarnhad drwy ebost gan CSYM bod y gwaith ar y gweill.
IACC have confirmed by email that the work is in hand.

4.3 Dylan Williams, Datblygu Economaidd/Economic Development

Cafwyd wybod gan y clerc bod y drafodaeth gyda Dylan Williams wedi ei ohurio oherwydd ymrwymadau ynghlwm a datblygiad Wylfa Newydd.

The clerk informed those present that the discussion with Dylan Williams had been deferred due to commitments relating to the Wylfa Newydd development.

4.4 Neuadd Goffa ac Age Well / Memorial Hall and Age Well

Cadarnhawyd bod trefniadau ar gyfer cyfarfodydd gyda ymddiriedolwyr y ddau elusen mewn llaw. Nododd Cyng Richard Jones ei fod wedi siarad a chynrychiolwyr Age Well ac nad oedd unrhyw fwrriad ganddynt cwrdd a'r *Muppets* yn y Cyngor Tref. Nododd John Byast bod angen gwahodd yr ymddiriedolwyr yn swyddogol i gwrdd a chynrychiolwyr y Cyngor – mae'r rhestr enwau a manylion cyswllt i'w gael ar wefan y comisiwn elusennau. Mae'n bwysig siarad a'r ddau elusen i ddod at wraidd yr anghydfod a deall pam fod y grwp wedi symud eu gweithgareddau o'r Neuadd i'r Ganolfan Hamdden yn groes i ddymuniad yr aelodau.

Roedd Cyng Richard Jones yn siomedig darllen yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf bod Meg Roberts wedi ymosod arno eto ac fe esboniodd ar lafar y rhesymeg am symud gwasanaethau Age Well i'r ganolfan hamdden. Pwysleisiodd mai cadeirydd annibynnol o'r cyfarfod blynyddol ydoedd, ac nad oedd ynghlwm a'r elusen mewn unrhyw ffordd arall.

Nododd Meg Roberts ei bod hithau, a'r Cyngor Tref wedi trin a thrafod a gofyn am atebion ynglyn a'r ganolfan hamdden, Age Well, a'r defnydd o gyfleusterau'r ysgol. Roedd Cyng Richard Jones wedi cael llond bol o'r cecru ac yn erfyn ar y Cyngor Tref i weithio gyda fo yn hytrach nac yn ei erbyn. Fe ofynnodd i Meg Roberts i ymddiheuro yn swyddogol am ymosod arno gan ddatgan nad oedd unrhyw beth wedi'i gyflawni yn y dref dros y 30 mlynedd diwethaf. Fe ofynnodd Myrddin Owens a oedd Cyng Richard Jones yn ymwybodol o gefndir arian Shell, ac Ymddiriedolaeth Elusennol Mon.

Fe ofynnodd Cyng Richard Jones pam nad oedd Cyng Aled Jones wedi ei gynnwys yn eitem 13, bod tri Aelod Lleol. Esboniodd Gareth Roberts nad oedd Cyng Aled Jones yn aelod o'r Grwp Rheoli yn Llangefni ac felly nad oedd yr eitem yn berthnasol iddo.

Nododd Carys Cranston bod y cynghorwyr i gyd yn wirfoddolwyr; wrth gwffio yn erbyn eu gilydd ni fydd posib cyflawni unrhyw beth buddiol. Nododd bod angen gofyn y cwestiynnau cywir yn y ffurf cywir. Bu Cyng Richard Jones adael y cyfarfod. Nododd Carys Cranston fod ganddi gywilydd fod ynghlwm a'r Cyngor tra bod aelodau yn ymddwyn fel hyn.

Cadarnhaodd Gareth Roberts mai'r cwestiwn oedd am ofyn i Cyng Richard Jones a Cyng Richard Griffiths petaent yn bresennol yn y cyfarfod oedd: 'a yw Amlwch wedi ei gynnwys ym mharth menter gogledd Cymru'. Daw datganiad yn y dyddiau diwethaf gan Llywodraeth Cymru am fuddsoddiad i'r parth yma. Roedd pryderon am diffyg buddsoddiad mewn unedau busnes yn Amlwch. Nid oedd gwrthwynebiad bod buddsoddiad yng Nghaerdybi a Llangefni ond teimlwyd bod Amlwch yn colli allan. Nodwyd bod cwestiynnau yn cael eu gofyn yn reolaidd ond nad oedd atebion.

Fe ofynnodd Myrddin Owens am gadarnhad pwy oedd wedi cyfeirio at y Cyngor Tref fel '*muppets*', a bod angen dilyn y mater i fynu gyda'r comisiwn elusennau. Cytuno bod angen cadarnhau manylion cyfarfodydd gyda'r elusennau ar fyrder, a byddai cadeiryddion y pwyllgorau yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfodydd hynnu.

It was confirmed that arrangements for meetings with trustees from both charities were in hand. Cllr Richard Jones noted that he had spoken to representatives from Age Well and that they had no intention of meeting with the 'Muppets' at the Town Council. John Byast noted that an official invitation to meet with representatives from the Council is required – a list of trustees and contact details can be found on the charity commission website. It is important to speak to both charities to get to the root of the issue and understand why the group have moved their activities from the Hall to the Leisure Centre against the wishes of the members.

Cllr Richard Jones was disappointed to read in the minutes of the last meeting that Meg Roberts

had attacked him again, and he gave a verbal explanation as to why the Age Well activities had been moved to the leisure centre. He emphasised that he was an independent chair for the AGM only and that he was not involved with the charity in any way.

Meg Roberts noted that she, and the Town Council, had considered and discussed and asked for answers regarding the leisure centre, Age Well and the use of the school's facilities. Cllr Richard Jones stated he'd had enough of the bickering in the Town Council and urged the members to work with him rather than against him. He asked Meg Roberts for an apology noting that nothing had been achieved in the town over the last 30 years. Myrddin Owens asked whether Cllr Richard Jones was aware of the background of the Shell Fund and the IACC Charitable Trust.

Cllr Richard Jones asked why Cllr Aled Jones had not been included in item 13 as there are three elected members. Gareth Roberts explained that Cllr Aled Jones was not a member of the ruling group in Llangefni and thus the item was not relevant to him.

Carys Cranston noted that the councillors were all volunteers; fighting against each other, it will not be possible to achieve anything of benefit. She noted that the right questions need to be asked in the right manner. Cllr Richard Jones left the meeting. Carys Cranston noted that she was ashamed to be involved with the Council whilst members behaved in the way they do.

Gareth Roberts confirmed that the question to be asked of Cllr Richard Jones nad Cllr Richard Griffiths had they been present at the meeting was: 'has Amlwch been included in the North Wales Enterprise Zone'. The Welsh Government has recently confirmed investment in this zone. There were concerns regarding lack of investment in business units in Amlwch. There was no objection to the investment in Llangefni and Holyhead but it was felt that Amlwch was missing out. It was noted that questions are raised on a regular basis but no answers given.

Myrddin Owens asked for confirmation as to who had referred to the Town Council as Muppets and that the matter should be followed up with the charity commission. Agreed that meetings should be confirmed with the charities as a matter of urgency, and that the chairs of the committees would represent the Council at those meetings.

4.5 Prosiect Carbon Isel / Low Carbon Project

Cadarnhaodd Gordon Warren bod y grwp yn edrych am ddau brosiect posib ym Mon. Cytuno cysylltu a hwy a thrafod ymhellach..

Gordon Warren confirmed that the group were looking to develop two possible projects on Anglesey. Agreed to make contact and discuss further.

4.6 Safleoedd Bws / Bus Stops

Cafwyd gadarnhad gan CSYM nad oedd bwriad symud y safle bws o Lon Goch yn barhaol. IACC have confirmed that there is no intention to permanently move the bus stop from Lon Goch.

4.7 Dathlu'r Nadolig / Christmas Celebration

Cadarnhawyd bydd y digwyddiad yn cymryd lle nos Sul Rhagfyr 16 2018 yn y Neuadd Goffa. It was confirmed that the event will take place Sunday December 16 2018 at the Memorial Hall.

4.8 Arwyddion Mynydd Parys Signs

Cafwyd gadarnhad gan Cyng Aled Jones drwy ebost bod cyfrifoldeb am brynnu arwyddion twristiaeth yn disgyn ar yr atyniad. Mae wedi derbyn prisiau am y gwaith o wneud a gosod yr arwyddion gan CSYM ac mae yn mynd ar afael i ddiogelu grantiau tuag at y gost hynnu.

Cllr Aled Jones confirmed by email that the responsibility for purchasing tourism signs lie with the attraction. He had obtained quotes for the work to produce and install the signs by IACC and is looking to obtain grant funding towards the expense.

4.9 Cydnabyddiaeth / Remuneration

Cafwyd grynoded gan Myrddin Owens i'r rheini oedd yn absennol yn y cyfarfod diwethaf, o ganllawiau a gofynnion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nododd bod angen cadarnhad gan pob aelod a ydynt yn bwriadu hawlio'r arian neu peidio er mwyn gallu cyllido arian y

Cyngor yn gywir. **Cafwyd gadarnhad gan bawb oedd yn bresennol na fyddent yn hawlio'r hyn sydd ar gael iddynt yn ystod 2018/19 na 2019/20.** Nid yw'r penderfyniad yn atal y posibilrwydd o unrhyw aelodau yn y dyfodol sy'n dymuno hawlio'r taliad i wneud hynnu. Y clerch i ysgrifennu at yr aelodau sy'n absennol i gadarnhau eu bwriad.

*Myrddin Owens gave an overview for those not present at the last meeting of the guidance and requirements noted by the Independent Remuneration Panel. He noted that confirmation is required from each member as to whether or not they intend to claim the monies in order to be able to accurately budget the council's finances. **All present confirmed that they would not be claiming their entitlement for 2018/19 or 2019/20.** The decision does not preclude the possibility of any future members wishing to claim the payment. The clerk to write to absent members to confirm their intention.*

5 Pwyllgorau Allannol / External Meetings

Dim / None

6 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nododd bod rhestr o daliadau ar gel gan y clerch petai unrhyw aelod am fwy o wybodaeth. Nodwyd bod y pwyllgor wedi derbyn a thrafod adroddiad yr archwiliwr allannol, a bod copi o'r adroddiad ar gael drwy gysylltu a'r clerch. Y prif bwynt a nodwyd gan yr archwiliwr oedd bod gan y Cyngor gormod o arian wrth gefn. Roedd y pwyllgor cyllid yn argymhell bod peth arian yn cael ei drosglwyddo o'r cyfrif cadw i gyfrif cronfa Shell. Mae'r gronfa yma wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau cymunedol. Cefnogwyd y cynnig.

Nododd Myrddin Owens bod cais wedi ei dderbyn am gefnogaeth ariannol gan grwp hanes lleol oedd am gyhoeddi llyfr am hanesion a straeon y dref. Roedd y pwyllgor yn cynnig cyfraniad o £2000 ar yr amod bod cyfrifon y grwp yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai hefyd posib dangos cefnogaeth y Cyngor ar y llyfryn terfynnol. Nid oedd gwrthwynebiad.

Trafodwyd cynllun rheoli'r llithrfa gan nodi bydd y Cyngor yn hawlio 20% yn gostau gweinyddol. Fe ofynnodd Meg Roberts os oedd wir angen rheoli y defnydd o'r llithrfa. Nodwyd mai cynllun CSYM oedd hwn, ac nhwythau oedd yn cytuno ar y pris, a'r nifer o oriadau oedd ar gael. Fe ofynnodd Carys Cranston pam fod angen codi ar bobl i ddefnyddio cyfleusterau. Cynnigodd bod y Cyngor yn ysgrifennu at CSYM i ofyn iddynt ddileu'r cynllun, eilio gan Meg Roberts. Fe ofynnodd Julie Hughes i ble roedd yr arian ynghlwm a'r cynllun yn mynd. Esboniodd y clerch pwrpas a chefnidir y cynllun a sut oedd yn gweithio.

Bu i'r clerch, aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod tra bu i Myrddin Owens roi diweddariad gan ym ombwdsmon am y gwyn ynglyn ag aelod.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. He noted that a list of payments was available with the clerk should anyone require more information. It was noted that the committee had received and considered the external auditor's report, and that copies were available by contacting the clerk. The main point noted by the auditor was that the Council's reserves were too high. The finance committee recommended that some funds be transferred to the Shell reserve account. This fund has been earmarked for community projects. There was no objection.

Myrddin Owens noted that a request for funding had been received from a local history group wishing to publish a book of local history and stories. The committee proposed that a contribution is made of £2000 on the condition that the group's accounts are presented to the Council at the end of the year. It may also be possible to refer to the Council's support on the final publication. The proposal was supported.

The slipway management scheme was discussed and it was noted that the council will claim 20% administration fees. It was noted that this was an IACC scheme and that they determine the costs and number of keys available. Carys Cranston questioned why there was a need to charge people to use the facility. She proposed that the Council write to IACC to ask that they do away with the scheme seconded by Meg Roberts. Julie Hughes asked where the money went. The clerk explained the purpose and background of the scheme and how it worked.

The clerk, members of the public and press left the meeting whilst Myrddin Owens gave an update from the ombudsman about the complaint regarding a councillor.

7 Adroddiad Parciau a Mannau Aored/Parks and Open Spaces Report

Cafwyd ddiweddariad ar y cais loteri gan Gordon Warren.
Gordon Warren gave an update on the lottery grant application.

8 Adroddiad Pwyllgor Efeillio / Twinning Committee Report

Bu i Myrddin Owens ddatgan diddordeb ac fe adewodd y Siambr. Cafwyd grynodedb o gyfarfod y pwyllgor gan Meg Roberts ac fe ddosbarthwyd gopiau o'r adroddiad i bawb oedd yn bresennol. Mae disgwyl ymwelydd o bentref Sankwia o fewn yr wythnosau nesaf. Mae'r pwyllgor yn bwriadu cynnal noson i'w groesawu – dyddiad i'w gadarnhau. Bydd y noson yn gyfle i ddathlu'r gefeillio ac arddangos gwaith da yr elusen hyd yma. Nid oedd gwrthwynebiad.

Myrddin Owens declared an interest and he left the chamber. A summary of the committee meeting was given by Meg Roberts and copies of the report distributed to all present. A visitor from Sankwia is expected within the next few weeks. The committee intend to arrange an evening to welcome him – date to be confirmed. The evening would be an opportunity to celebrate the twinning and showcase the good work of the charity to date. There was no objection.

9 Wylfa Newydd

Mae disgwyl i gynghorau Mechell a Llanbadrig adrodd yn ol i'r Bartneriaeth cyn i drafodaethau barhau gyda'r ddogfen Tir Cyffredin.

Feedback is anticipated from Mechell and Llanbadrig Community Councils to the Partnership before further discussions regarding the SOCG.

10 Safle Rhosgoch Site

Nid oes ymateb fyth gan CSYM ynglyn a datblygiad Rhosgoch. Nid oes cynghorwyr sirol yma i ymateb heno. Mae CSYM wedi dweud bod angen i Ogledd Mon elwa o ddatblygiad Wylfa Newydd, felly pam fod gwelliannau i'r fordd yn Llangefni ac unedau busnes a diwydiant newydd yn cael eu hadeiladu yn Llangefni a Chaergybi a dim byd yn Amlwch. Mae angen atebion gan yr aelodau lleol.

Nodwyd bod Horizon yn gwranddo ond ddim yn ateb cwestiynnau nac yn gweithredu. Mae 4000 o bobl mewn gwrsyll yng Ngemaes yn bryder mawr i'r gymuned leol, ynghyd a 40 lori pob awr i fewn ac allan o'r safle. Byddai safle Rhosgoch wedi bod o fudd, ac fe gwestiynnwyd eto pam fod CSYM wedi gwerthu'r safle cyn datblygiad Wylfa Newydd er bod y cymunedau lleol wedi erfyn arnynt i beidio a gwerthu.

Cadarnhawyd bod y Cyngor Tref yn parhau i fod yn gefnogol o ddatblygiad y safle i gynnig llety ac ati a chreu swyddi lleol dros gyfnod o beth amser.

There is still no answer from IACC with regard to the development of Rhosgoch. There are no county councillors present to respond. IACC have said that north Anglesey must benefit from the development of Wylfa Newydd, so why are road improvements in Llangefni and business / industrial units being developed in Llangefni and Holyhead and nothing in Amlwch. Local members need to provide answers.

It was noted that Horizon are listening but not answering questions or taking action. 4000 people in a camp in Cemaes is a concern for the local community, along with 40 lorries every hour in and out of the site. The Rhosgoch site would have been of benefit, and it was questioned again why IACC had sold the land before the development of Wylfa Newydd even though the local communities had urged them not to sell.

It was confirmed that the Town Council continued to support the development of the site to offer accommodation and the like, creating local employment for a number of years.

11 Siapio Cymunedau / Place Shaping

Cadarnhawyd bod yr adborth wedi ei hanfon allan i'r aelodau drwy ebost er gwybodaeth. Mae cyfarfod nesaf i drafod y cynllun i'w gynnal yn Nghemaes nos yfory 26/10/2018. Mae'r cyfarfod yn

agored i bawb.

It was confirmed that the feedback had been sent out to members via email for information. The next meeting to discuss the scheme is to be held in Cemaes tomorrow evening 26/10/2018. The meeting is open to anyone.

12 Diweddariad Llygredd Craig y Don Contamination Update

Ni fu Gareth Roberts yn rhan o'r drafodaeth. Nodwyd nad oedd diweddariad ers peth amser. Mae 16 o dai wedi eu hadnabod ers mis Ionawr 2018 o fod wedi eu llygru. Nid oes unrhyw gamau wedi eu cymryd gan CSYM i ddiogelu'r eiddo na'r trigolion. Mae'n debyg nad yw CSYM ar wario eu harian eu hunain i ddatrys y broblem a diogelu'r unigolion ond yn hytrach am ddisgwyl diogelu grtant gan llywodraeth Cymru. Cytuno ysgrifennu at Huw Thomas (swyddog diogelu'r cyhoedd) i nodi pryderon y Cyngor Tref a bod angen i CSYM gymryd camau gweithredol i ddiogelu trigolion.

Gareth Roberts did not participate in the discussion. It was noted that no update had been provided for some time. 16 properties have been identified since January 2018 as being contaminated. No action has been taken by IACC to safeguard the properties or residents. It appears that IACC do not want to spend their own money to rectify the problem, rather to wait and secure funding from Welsh government. Agree to write to Huw Thomas (public protection officer) to note the Council's concern and that IACC must act to safeguard residents.

13 Cwestiynnau i Cyng. Richard Griffiths a Cyng Richard Jones / Questions for Cllr Richard Griffiths and Cllr Richard Jones

Wrth gydnabod nad oedd unrhyw un o'r tri aelod sirol yn bresennol, gydag on Aled Jones wedi ymddiheuro, nid oedd posib cyflwyno cwestiynnau. Fe gynnigodd Kevin Ellis bod unrhyw gwestiynnau penodol at sylw aelodau'r grwp rheoli yn cael eu hanfon atynt ymlaen llaw yn y dyfodol ble'n ymarferol er mwyn rhoi cyfle iddynt wneud ymholiadau a chanfod atebion ymlaen llaw. Nid oedd gwrthwynebiad ond nodwyd bod disgwyl i'r aelodau etholedig wybod am, a gallu ymateb i gwestiynnau ar benderfyniadau CSYM, yn enwedig os oeddent yn bresennol yn y cyfarfod ac wedi pleidleisio ar y mater.

Acknowledging that none of the three county councillors were present, with only Cllr Aled Jones apologising for his absence, it was not possible to present questions. Kevin Ellis proposed that any specific questions for the attention of the ruling group members be sent to them where practicable prior to the meeting in future so that they have an opportunity to make enquiries and seek answers. There was no objection, however it was noted that elected members were expected to know, and be able to answer questions on IACC decisions, especially so if they were present at the meeting and had voted on the matter.

14 Gohebiaeth / Correspondence

14.1 Huws Eugrad Cyf

Daw llythyr yn cynnig yr enw Llwyn Helyg ar y datblygiad ger yr Eglwys Gatholig. Nid oedd gwrthwynebiad.

A letter proposing the name 'Llwyn Helyg' on the development by the Catholic Church. There was no objection.

14.2 Grid Cenedlaethol/National Grid

Gwybodaeth am y cais DCO a chadarnhad ble gellir gweld y dogfennau perthnasol.
Information regarding the DCO application and confirmation where the documents can be seen.

14.3 Car Linc Mon

Mae'r gwasanaeth yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr yn Amlwch
The service is looking for more volunteers in the Amlwch area.

14.4 Battle is Over

Cadarnhad bydd y golau yn cael ei gynnau ar Fynydd Parys 11/11/2018 gyda gwasanaeth yn y maes parcio am 6.30yh.

Confirmation that the beacon will be lit on Parys Mountain 11/11/2018, with a service in the car park

at 6.30pm.

15 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

15.1 Arddangosfa Coffa / Remembrance Display

Gofynnodd Gareth Roberts a fyddai posib ysgrifennu i'r grwp ynghlwm a'r arddangosfa coffa yn yr Eglwys ac o amgylch y dref i'w llongyfarch. Nid oedd gwrthwynebiad. Mae'r arddangosfa yn wych ac wedi rhoi Amlwch ar y map, yn ogystal a hyn mae'r prosiect wedi dod a phobl o pob oed a gallu at eu gilydd i gydweithio a dysgu sgiliau newydd a chreu ffrindiau am oes.

Gareth Roberts asked whether it would be possible to write to the group involved with the display at the Church and around the town to congratulate them. There was no objection. The display is excellent and has put Amlwch on the map, as well as this the project has brought people together of all ages and abilities to work together and learn new skills, making friends for life.

15.2 Gorymdaith / Parade

Nododd Liz Wood bydd gorymdaith Sul y Cofio yn cychwyn o'r Orsaf Dan gydag unrhyw un sydd am gymryd rhan i fod yn bresennol am 8.45. Mae nifer o grwpiau cymunedol, milwyr a chyn filwyr wedi cadarnhau yn barod. Mae'r heddlu yn ymwybodol o'r disgwyddiad ac yn gefnogol ohono. Cytuno byddai Liz Wood yn anfon trefn y dydd cyn gynted a phosib fel bod modd i'r clerch ei gylchredeg ir aelodau er gwybodaeth.

Liz Wood noted that a Remembrance Sunday parade will commence from the Fire Station, with anyone wishing to participate to be present at 8.45am. A number of community groups, service personnel and veterans have already confirmed. The police are aware of the event and supportive. Liz Wood to forward a programme of events as soon as possible so that the clerk can distribute to members for information.

15.3 Cofrestr Diddordebau / Register of Interests

Nodwyd nad oedd llawer o ffurfenni wedi eu dychwelyd hyd yma,
It was noted that not many forms had been returned as yet.

15.4 Cylchfan / Roundabout

Nododd Carys Cranston bod y gylchfan yn beryglus gyda cerbydau yn symud yn rhy gyflym. Nodwyd byddai angen siarad a'r cynghorwyr sirol ac adain priffyrdd CSYM.

Carys Cranston noted that the roundabout is dangerous with vehicles travelling too quickly. It was noted that she should speak to the county councillors and highways dept IACC.

15.5 Cyllideb 2019/20 Budget

Atgoffwyd aelodau pwyllgorau'r fynwent a pharciau a mannau agored bod angen iddynt gwrrd a thrafod eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf cyn dechrau mis Rhagfyr pan fydd y pwyllgor cyllid yn train a thrafod y gyllideb gyflawn a'r priseb.

Members of the cemetery, parks and open spaces committees were reminded that they need to meet and discuss their budget for the next year before December when the finance committee will be considering and discussing the full council budget and precept.

16 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Tachwedd 27 2018 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor. Bydd cyfarfod mis Rhagfyr i'w gynnal nos Fawrth Rhagfyr 18.

The next meeting will take place on Tuesday November 27 2018 at 7pm in the Council Chamber. The December meeting will be held Tuesday December 18th.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30 / *The meeting closed at 20.30*

Arwyddwyd / Signed:
Gordon Warren, Cadeirydd / Chair